
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	30 Awst 2019
Pwnc / Subject:	Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Background information about Estyn

Estyn is the Office of Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales. As a Crown body, Estyn is independent of the Welsh Government.

Estyn's principal aim is to raise the standards and quality education and training in Wales. This is primarily set out in the Learning and Skills Act 2000 and the Education Act 2005. In exercising its functions, Estyn must give regard to the:

- Quality of education and training in Wales;
- Extent to which education and training meets the needs of learners;
- Educational standards achieved by education and training providers in Wales;
- Quality of leadership and management of those education and training providers;
- Spiritual, moral, social and cultural development of learners; and,
- Contribution made to the well-being of learners.

Estyn's remit includes (but is not exclusive to) nurseries and non-maintained settings, primary schools, secondary schools, independent schools, pupil referrals units, further education, adult community learning, local government education services, work-based learning, and teacher education and training.

Estyn may give advice to the Assembly on any matter connected to education and training in Wales. To achieve excellence for learners, Estyn has set three strategic objectives:

- Provide accountability to service users on the quality and standards of education and training in Wales;
- Inform the development of national policy by the Welsh Government;
- Build capacity for improvement of the education and training system in Wales.

This response is not confidential.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Mae'r cynllun cyflawni'n parhau i roi pwyslais mawr ar wella iechyd meddwl a llesiant pobl o bobl oed, fydddech chi'n cytuno â'r egwyddor hon?

Byddem

Cwestiwn 2: Lle mae'r egwyddor yn gweithio'n dda yn eich barn chi, a allech roi sylwadau pellach am hyn, neu lle y mae angen pwyslais arall?

- Mae gan y cynllun cyflawni bwyslais addas ar egwyddor gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ffocws priodol ar ffactorau amddiffynnol er lles iechyd meddwl da. Mae'r ymrwymiad cadarnhaol i feysydd a amlygwyd ar gyfer gwaith trawslywodraethol, fel addysg, cyflogaeth a thai, yn cryfhau'r cynllun hwn.
- Mae'r cynllun yn ystyried cynaliadwyedd ac yn nodi 4 ffrwd waith i'w blaenoriaethu, a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun 2 flynedd, a'r tu hwnt, i sicrhau'r gwelliannau hirdymor bwriadedig. Er y gallai'r 'ymagwedd ysgol gyfan newydd' at fentrau iechyd meddwl a llesiant gryfhau'r dull atal ac ymyrraeth gynnar, prin yw'r wybodaeth yn y cynllun ar hyn o bryd ynghylch sut beth fydd hyn.
- Mae'r cynllun yn cyfeirio at Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd y Gweinidogion ynghyd â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i ychwanegu at y cwricwlwm newydd, ond byddai rhagor o wybodaeth am y gwaith hyd yn hyn, neu gyfeirio at wybodaeth ychwanegol am y gwaith hyd yn hyn, yn ddefnyddiol.

Yn y cynllun cyflawni, mae nifer o feysydd â blaenoriaeth i'w gweithredu, sef:

- Atal iechyd meddwl gwael a chynnal lles meddyliol
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth Argyfwng a Thu Allan i Oriau i blant ac oedolion
- Gwella mynediad, ansawdd ac ystod therapiau seicolegol i bob oedran
- Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol
- Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau tra'n datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adferiad
- Cefnogi grwpiau agored i niwed

Cwestiwn 3: Ydy'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn gywir, yn eich barn chi? Ydyn nhw'n addas i'r diben?

Ydyn

Cwestiwn 4: Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymateb, gan nodi pam y mae'r meysydd blaenoriaeth yn briodol yn eich barn chi neu awgrymu meysydd neu newidiadau allweddol ychwanegol yr hoffech eu gweld?

- Mae'r meysydd blaenoriaeth yn adeiladu'n briodol ar y ffrydiau gwaith trosfwaol, a fydd hefyd yn cael blaenoriaeth y tu hwnt i ddiwedd y cynllun hwn.
- Mae llawer o gyfleoedd o fewn y 7 maes blaenoriaeth i groesgyfeirio gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ym maes addysg i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgu (Cymru) 2018, sef:

Ystod oedran 0–25

- Bydd gwasanaethau iechyd ac addysg yn cydweithio i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0 i 25 oed.

- Bydd awdurdodau lleol yn ceisio cyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol, lle y bo'n berthnasol i'r dysgwr unigol.
- Gall awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ofyn i'r gwasanaeth iechyd ystyried p'un a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y dysgwr. Os oes, rhaid i'r gwasanaeth iechyd ei sicrhau.
- Os yw'r gwasanaeth iechyd o'r farn bod gan blentyn ADY (neu mae'n debygol bod ganddo ADY), rhaid iddynt ddwyn hyn i sylw'r awdurdod lleol priodol, os ydynt o'r farn bod hynny er lles pennaf y plentyn.

Cynllun unedig

- Lle y nodwyd triniaeth neu wasanaeth perthnasol, caiff ei gynnwys fel darpariaeth dysgu ychwanegol yn y cynllun datblygu unigol (CDU). Bydd darpariaethau dysgu ychwanegol o'r fath yn ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth.
- Bydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn hybu cysondeb a thegwch i sicrhau bod ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth yn hybu canlyniadau gwell ac yn lleihau anghydraddoldeb.

Cod ADY gorfodol

- Bydd y Cod ADY yn rhoi arweiniad ar y system ADY newydd y mae'n rhaid i wasanaethau iechyd ei hystyried.

Hawliau apelio clir a chyson

- Bydd y Tribiwnlys Addysg yn rhoi argymhellion i'r gwasanaeth iechyd ac am yr agweddau iechyd ar y ddarpariaeth dysgu ychwanegol.
- Bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth iechyd adrodd i'r Tribiwnlys Addysg ar unrhyw argymhellion y mae'r gwasanaeth iechyd yn ddarostyngedig iddynt.
- Er y gall y Tribiwnlys Addysg gyflwyno Gorchymyn sy'n rhwymo'r awdurdod lleol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth honno yn unig, byddem yn disgwyl i'r awdurdod lleol geisio cydweithrediad gwasanaethau iechyd wrth gyflwyno'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Gorchymyn. Bydd gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig rôl bwysig yn hyn o beth.

Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau yn gynt

- Os bydd plentyn, ei rieni/gofalwyr, neu berson ifanc yn anfodlon ag asesiad, triniaeth neu wasanaeth a ddarperir gan y GIG, gallai godi'i bryderon trwy broses Gweithio i Wella y GIG. Bydd gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig rôl bwysig hefyd.

Mwy o gydweithredu

- Bydd y ddyletswydd ar y gwasanaeth iechyd i sicrhau darpariaeth dysgu ychwanegol benodol sydd wedi'i chynnwys mewn CDU yn sicrhau bod eglurder a sicrwydd o ran cyflwyno darpariaeth.
- Bydd creu rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig ym mhob gwasanaeth iechyd yn helpu i gryfhau cydweithio a gweithredu ar y cyd rhwng y gwasanaeth iechyd a'r awdurdod lleol. (1)
- Bydd y camau gweithredu allweddol hyn ar gyfer iechyd a amlygir yn rhan o'r Ddeddf yn dwyn goblygiadau i'r Cynllun Cyflawni, gellid amlygu'r goblygiadau hyn yn gliriach yn y meysydd blaenoriaeth.

Yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth, mae gennym nifer o ffrydiau gwaith troswaol y bydd angen eu blaenoriaethu hefyd, ond byddant yn parhau y tu hwnt i oes y cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithredu'r set ddata graidd i wella cysondeb, cadernid a'r ffocws ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau iechyd meddwl pob oed.

- Datblygu cynllun gweithlu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Iechyd Meddwl y GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gefnogi gwelliannau i wasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor ac i sicrhau gweithlu iechyd meddwl sefydlog a chynaliadwy.
- Cryfhau ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector ar draws gwelliannau polisi a gwasanaeth.
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r ffrydiau gwaith priodol i'w blaenoriaethu?

Yn rhannol

Cwestiwn 6: Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ymateb, gan nodi pam rydych yn credu y dylid blaenoriaethu'r ffrydiau gwaith hyn neu awgrymu ffrydiau gwaith neu newidiadau ychwanegol yr hoffech eu gweld?

- Mae gan y pedair ffrwd waith ormod o ogwydd tuag at iechyd. Mae'r cynllun yn amlinellu'r angen am weithio traws-sector ac ymyrraeth gynnar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fodd bynnag, nid oes digon o fanylion a chyfeiriad at y themâu hyn o fewn y ffrydiau gwaith presennol.
- Byddai'r ffrydiau gwaith yn cael eu cryfhau ymhellach gan gyfeirio'n ychwanegol at ddiwygio'r cwricwlwm ac ADY a sut gallai'r newidiadau allweddol hyn gael eu defnyddio'n gyfrwng i ategu'r 7 maes blaenoriaeth a'r 4 ffrwd waith.

Cwestiwn 7: O fewn pob thema allweddol, rydym wedi nodi nifer o bwyntiau gweithredu a cherrig milltir allweddol. Ydych chi'n teimlo mai'r rhai sydd wedi eu nodi yw'r rhai cywir?

Blaenoriaeth 1: Atal iechyd meddwl gwael a chynnal lles meddyliol.

- Nid yw'r disgrifiad ar dudalen 6 ac ar dudalen 10 yn rhoi'r un neges. Mae hon yn flaenoriaeth bwysig. Rydym yn meddwl tybed a gafodd ei datblygu ar sail y gwerthusiad a'r canlyniadau o gynlluniau 1 a 2. Nid oes cyfeiriad at y cynlluniau blaenorol hyn a sut y'u defnyddiwyd i lywio'r 7 blaenoriaeth at y dyfodol.
- Ym mlaenoriaeth 1, mae 4 thema allweddol; nid ydym yn siwr a ddatblygwyd y themâu allweddol ar sail y canlyniadau o gynlluniau 1 a 2.
- Ar sail blaenoriaeth 1, sef canolbwyntio ar atal iechyd meddwl gwael, byddai cael thema allweddol sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar yn fuddiol.
- Ar hyn o bryd, mae diffyg parhad rhwng y themâu allweddol a amlygwyd, 'beth y mae angen ei wneud' a cherrig milltir allweddol. Ar y cyfan, mae'r adran 'beth fydd yn wahanol/sut byddwn ni'n gwybod', wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd. Nid yw'n glir beth fydd canlyniadau bwriadedig y blaenoriaeth hon yn ôl pob tebyg nac ystod y dystiolaeth fyddai'n cael ei defnyddio. Er enghraifft, nid yw lledaenu canllawiau arfer gorau ac offer ar ymagweddau ysgol gyfan tuag at lesiant a chydnerthedd meddyliol, yn cynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn cael ei ystyried o dan gerrig milltir allweddol nac o dan adran effaith y thema.

Blaenoriaeth 2: Gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc

- Mae'r themâu allweddol yn briodol. Yn y thema allweddol gyntaf, dylai datblygu a gweithredu dull ysgol gyfan amlasiantaeth a chyflwyno dysgu proffesiynol i staff ysgol ar bob lefel ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol gael eu hystyried yng nghyd-destun y newidiadau y mae ysgolion yn eu hwynebu i'r cwricwlwm a'r

agenda diwygio a thrawsnewid ADY.

- Mae datblygiad hollbwysig yn thema allweddol 2 2.2iii. Y pryder presennol yw diffyg ymarferwyr arbenigol cymwysedig yn y maes i gyflawni'r rôl hon. A oes gan Lywodraeth Cymru bolisi recriwtio strategol i hwyluso'r cam gweithredu hwn?
- Byddai adran 'beth fydd yn wahanol/sut byddwn ni'n gwybod' llawer o'r seiliau tystiolaeth a amlygir yn briodol. Gallai'r flaenoriaeth hon gael ei chryfhau gyda chyfeiriad ychwanegol at reoli effeithiau camddefnyddio sylweddau ar draws ysgolion ac effaith hyn ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Gellir ystyried dylanwad gweithgareddau ar-lein ac effaith y rhain ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

Blaenoriaeth 3: Gwelliannau pellach i ddarpariaeth argyfwng a thu allan i oriau i blant ac oedolion:

- Mae themâu allweddol clir a chamau gweithredu priodol yn rhoi trosolwg da o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer gwella

Blaenoriaeth 4: Gwella mynediad, ansawdd ac ystod therapiau seicolegol i bob oedran.

- Dim ond un thema allweddol a nodwyd. Byddai'r flaenoriaeth yn elwa o esboniad pellach o'r hyn yw 'cynlluniau peilot arfer yn seiliedig ar ganlyniadau i wella'r defnydd o wybodaeth profiadau mewn byrddau iechyd'.
- Gallai hyn hefyd gryfhau'r maes blaenoriaeth fel ei fod yn croesgyfeirio'n fwy â blaenoriaeth 7 ar gyfer dysgwyr agored i niwed a blaenoriaeth 2 i gynnwys addysg yn llawnach yn y dull.
- Prin yw'r cyfeiriad at y gwaith sydd eisoes wedi dechrau mewn ysgolion ar agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a allai fod o fudd i'r flaenoriaeth hon. Gallai'r cyfarwyddyd i ysgolion a drafodwyd fel cam gweithredu ym maes blaenoriaeth 2 gael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y camau bwriadedig yn fwy trylwyr yn y flaenoriaeth hon.

Blaenoriaeth 5: Gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol

- Mae themâu allweddol clir a chamau gweithredu priodol yn rhoi trosolwg da o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer gwella.

Blaenoriaeth 6: Gwella ansawdd a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adferiad

- 4 maes thema allweddol. Yn thema allweddol 4, byddai'n cryfhau datblygiad timau iechyd meddwl cymunedol fel bod addysg yn cael ei chynnwys fel rhanddeiliaid amlwg yn y datblygu. Byddai esboniad pellach o rôl y tîm iechyd meddwl cymunedol yn ddefnyddiol a sut caiff y timau hyn eu cydlynu ledled Cymru.
- Mae trefniadau byrddau iechyd a chonsortia rhanbarthol yn amrywio, felly mae angen ystyried hyn i sicrhau arferion gweithio cysylltiedig rhwng iechyd, addysg ac awdurdodau lleol.

Blaenoriaeth 7: Cefnogi grwpiau agored i niwed:

- Mae 3 thema allweddol yn y flaenoriaeth hon. Byddai eglurder pellach ynghylch y term 'grwpiau agored i niwed' yn ddefnyddiol i sicrhau cysondeb, fel bod pob sector yn deall pob agwedd ar fod yn agored i niwed er mwyn sicrhau tegwch ac eglurder o ran y gwasanaethau sydd ar gael i'r grŵp penodol hwn.
- Ar hyn o bryd, nodwyd anhwylderau bwyta, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar y cyd, a throseddwyd yn gamau gweithredu penodol. Ar hyn o bryd,

nid oes cyfeiriad at rôl addysg yn un o'r 3 grŵp hyn a nodir.

- Mae maes 'beth fydd yn wahanol/sut byddwn ni'n gwybod' wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth yn y maes hwn yn canolbwyntio ar fonitro ffigurau derbyn yn gyffredinol; prin yw'r wybodaeth am effaith ehangach tystiolaeth a amlygir yn bresennol.

Cwestiwn 8: Os ydych chi'n teimlo bod unrhyw bwyntiau gweithredu neu gerrig milltir allweddol ar goll, allwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll a beth fydddech chi'n argymhell y dylem ei ychwanegu?

- Nodwyd y prif feysydd yng nghwestiwn 7 yn fanylach.
- Y ddwy agwedd nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt ar hyn o bryd mewn addysg yw cyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiad y cwricwlwm a goblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, ydy'r Cynllun Cyflawni arfaethedig yn cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?

Yn rhannol

Cwestiwn 10: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r meysydd lle mae'r Cynllun Cyflawni'n cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth eraill, a sut gallai'r Cynllun gysylltu'n well gyda meysydd eraill yn eich barn chi?

- Drwyddi draw, mae'r Cynllun Cyflawni'n cyfeirio at ryw 10 Deddf a chynllun. Byddai'n ddefnyddiol croesgyfeirio'r blaenoriaethau a'r negeseuon allweddol o'r ystod eang hon o wybodaeth â'r Cynllun Cyflawni er eglurder. Byddai dyblygu a bylchau'n cael eu hamlygu'n glir. Byddai'r ymagwedd hon yn cynnig dull cysylltiedig effeithiol i randdeiliaid ei ddefnyddio a gweld lle y gall sectorau eraill gyfrannu at gyflawni camau gweithredu sy'n benodol i'w meysydd arbenigedd nhw.
- Mae'r Cynllun Cyflawni'n datgan yn glir fod iechyd meddwl yn 'fusnes i bawb' a byddai hyn yn helpu i sicrhau bod negeseuon yn glir a chyson ar draws pob Deddf a chynllun gan Lywodraeth Cymru.
- Cyfeirir at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar dudalen 8; gallai nodweddion allweddol y Ddeddf hon ymddangos yn amlycach yn y cynllun cyflawni, yn enwedig ym meysydd blaenoriaeth 1, 2 a 7.

Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, pa elfennau o'r cynllun cyflawni arfaethedig sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf?

Mae meysydd blaenoriaeth 1, 2 a 7 yn debygol o gael yr effaith fwyaf, yn targedu gwaith ataliol a grwpiau risg uchel penodol. Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng pob un o'r 7 blaenoriaeth ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau byddai 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-22' yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin heb unrhyw ffafriaeth.

Cwestiwn 12: Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y gallai fod? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu sut gellid lliniaru effeithiau negyddol?

- Dyma fater pwysig, yn enwedig i unrhyw un sydd eisoes yn cael problemau iechyd meddwl neu sydd mewn argyfwng, sef y dylent allu cyfathrebu trwy eu dull cyfathrebu cyntaf a'r un sy'n fwyaf cyfforddus iddynt, p'un ai yn y Gymraeg neu iaith arwyddion. Yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd dyletswydd newydd ar gyrff y GIG i benderfynu p'un a ddylid darparu triniaeth neu wasanaeth (sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc) yn y Gymraeg ac, os felly, nodi hynny yn y CDU a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Cwestiwn 13: A wnewch chi egluro sut rydych chi'n credu y gellid newid y cynllun cyflawni arfaethedig fel ei fod yn:

- **cael effeithiau cadarnhaol neu gynnydd mewn effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin heb unrhyw ffafriaeth,**
- **sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Saesneg yn cael unrhyw ffafriaeth dros y Gymraeg.**

- Byddai targedu adnoddau yn briodol ar sail angen yn ymagwedd effeithiol. Byddai angen i ragor o wybodaeth am y ffrwd waith hon fod ar gael er mwyn i ni roi barn fwy gwybodus.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n meddwl y bydd y camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun cyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:-

- Anabledd
- Hil
- Rhywedd ac ailbennu rhywedd
- Oedran
- Crefydd a chred a dim cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hawliau Dynol
- Plant a phobl ifanc

Byddant

Cwestiwn 15: Allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig neu'r meysydd y gellid eu gwella yn eich barn chi?

- Fel y gall ystod eang o randdeiliaid ddeall y materion cymhleth sy'n amlygu'u hunain o dan y term iechyd meddwl, mae'n bwysig bod gwybodaeth fanylach ac ychwanegol ar gael am sut y gallai'r Cynllun effeithio ar bobl â'r nodweddion gwarchoddedig uchod. Byddai angen cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon yn llawn ym mhob deunydd hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol a allai gael ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun Cyflawni.

Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol i'w trafod sydd ddim wedi eu crybwyll yn benodol, defnyddiwch y gofod isod i roi gwybod i ni:

Dyma'r prif feysydd i'w hystyried:

- Cyfeiriad at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'i goblygiadau i'r Cynllun Cyflawni

- Cynnwys ym maes blaenoriaeth 1 trwy gryfhau'r themâu allweddol fel bod ganddynt ffocws ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.

(1) Taflen Ffeithiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018